# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** IAA a Diogelu

**SWYDD:** Swyddog Sgrinio

**GRADD Y SWYDD:** GR08

**YN ATEBOL I'R:** Uwch-swyddog Sgrinio

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Sgrinio ac asesu atgyfeiriadau a gyflwynwyd ar gyfer Cymorth Cynnar. Nodi'r angen, y risg a'r cymorth sy'n ofynnol a chyfeirio i wasanaethau cymorth perthnasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwella ansawdd atgyfeiriadau a gyflwynir i Gymorth Cynnar a sicrhau bod y wybodaeth yn galluogi gwneud penderfyniadau cyflym a phriodol. Bod yn bwynt cyswllt i blant, pobl ifanc a theuluoedd y mae angen cymorth arnynt ac yn gallu cynnig cyngor a chanllawiau ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. Gweithio gyda staff mewn timau Cymorth Cynnar a Diogelu i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o lwybrau atgyfeirio, proses a gwasanaethau sydd ar gael yn y fwrdeistref ac yn deall y rhain. Bod yn ymatebol ac yn hyblyg i atgyfeiriadau er mwyn cynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth gael mynediad i'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac ymgymryd ag asesiadau o anghenion teuluoedd yn ôl y galw.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cymorth mewn Cymorth Cynnar ac asesu a sgrinio atgyfeiriadau ac ymchwilio iddynt gan sicrhau bod anghenion a nodwyd yn cael eu diwallu cyn gynted â phosibl.
- Meithrin perthnasoedd adeiladol a chefnogol, proffesiynol gyda defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill gan sicrhau y ceir mynediad i wasanaethau ar adeg sy'n diwallu angen a nodwyd.
- Gwella ansawdd atgyfeiriadau a gyflwynir i Gymorth Cynnar a sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chwblhau.
- Cwblhau asesiadau o anghenion gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd lle mae'r angen yn codi.
- Gweithio o fewn tîm amlasiantaethol wedi'i gydleoli gan ymrestru, cyfathrebu a chydgysylltu â phartneriaid mewn ymateb i angen a nodwyd.
- Canolbwyntio ar leihau risg a chynyddu'r ffactorau amddiffynnol ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd.

